**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 26 Mai 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 10 Mehefin |

---

**PWNC**

Eitem 3: EITEM FRYS – SEFYLLFA CARTREF

---

**PENDERFYNIAD**

Datganwyd parodrwydd y Cabinet i ariannu ymyrraeth yn unol â'r adroddiad a chymorth ymarferol er mwyn cynnal darpariaeth y cartref gofal dros y cyfnod heriol presennol er gwrachod lles y preswylwyr.

Nodwyd fod y penderfyniad uchod yn ddarostyngedig i gyrraedd cytundeb priodol gyda Chymdeithas Dai a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ar amodau'r ymyrraeth a chyfraniadau.

Penderfynwyd dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Cyllid a Phennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i gytuno telerau.

Bod y gwaith o baratoi achos busnes yn unol â phenderfyniad 18fed Chwefror 2020 yn parhau ac yn cael ei gyflwyno cyn diwedd y flwyddyn galendr

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae gan y Cyngor rôl amlwg yn sicrhau darpariaeth gofal digonol o fewn y sir ac yn sgil hynny i ystyried ymatebion i sefyllfaoedd penodol sydd yn codi.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 26 Mai 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 10 Mehefin |

## PWNC

Eitem 5:COVID-19 : ADFER

## PENDERFYNIAD

Penderfynwyd comisiynu'r Bwrdd Adfywio a'r Bwrdd Cefnogi Pobl i ystyried y canlynol -

- Y meysydd y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt yn nhermau'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd yn y meysydd hynny y mae'r byrddau yn gyfrifol amdanynt, gan gadw golwg ar y cyfeiriad yr oedd y byrddau eisoes yn ei ystyried cyn i'r argyfwng godi;
- pa weithrediadau sydd angen eu cyflawni yn y meysydd hynny yn y tymor byr a'r tymor canolig ac i adrodd yn ôl i'r Cabinet gydag argymhellion,
- Yn unol â Chynllun Cydraddoldeb y Cyngor ein bod yn rhoi ystyriaeth i anghenion grwpiau nodedig wrth wneud penderfyniadau yn y maes adfer.

Comisiynu'r Grŵp Rheoli i ystyried pa faterion corfforaethol sydd angen ystyriaeth yn y tymor byr a'r tymor canolig wrth i ni symud ymlaen at y "normal newydd" ac i adrodd yn ôl i'r Cabinet os cyfyd yr angen am benderfyniad fel yn berthnasol.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Nodwyd fod holl ymdrechion yr adrannau ar hyn o bryd wedi'i gyfeirio at ymateb i'r argyfwng Covid:19. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn edrych i symud ymlaen o fod yn ymateb i fod yn agor rhai gweithgareddau pellach. Yn hytrach nac ymateb i'r sefyllfa mae angen i'r Cyngor adnabod camau allweddol sydd eu hanfon yn yr amrywiol feysydd a bod yn barod i weithredu ar hynny.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o’r Cabinet:** | 26 Mai 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo’r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 10 Mehefin |

## PWNC

Eitem 6:ARGYFWNG COVID-19 : SEFYLLFA'R ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

## PENDERFYNIAD

I nodi a derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

I roi diweddariad i’r Aelodau Cabinet ar sefyllfa’r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn ystod y cyfnod argyfwng Covid-19.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.